**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor
a gynhaliwyd yn y brifysgol ar 9 Mai 2024

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), yr Athro Edmund Burke, yr Athro Rhiannon T. Edwards, Dr Ama Eyo, Mr Eric Hepburn CBE, Mr Celt John, Syr Paul Lambert, Ms Nyah Lowe, yr Athro Oliver Turnbull, Ms Julie Perkins, Dr John T. Prabhakar, Mrs Emily Rees, Dr Ian Rees, Mr Rheon Tomos, yr Athro David Viner, yr Athro Tim Wheeler DL, yr Athro Jean White CBE (o eitem 23.68 ymlaen), Ms Elin Wyn a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol).

**Ymddiheuriadau**:
Mr Atul Devani, yr Athro Andrew Edwards, Dr Aled Ll. Jones, yr Athro Paul Spencer, yr Athro Enlli Thomas a'r Athro Jean White (ar gyfer eitem 23.57 – 23.67)

**Yn bresennol hefyd:**
Mr Michael Flanagan (Prif Swyddog Trawsnewid), Mrs Patricia Murchie (Prif Swyddog Marchnata), Mr Martyn Riddleston (Prif Swyddog Cyllid) a Mr Mike Wilson (Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio).

Yn ogystal, bu Ms Nida Ambreen, Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr a Mr Gwion Rowlands, Llywydd newydd UMCB yn arsylwi'r cyfarfod.

Mrs Emma Marshall, Pennaeth Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr, i eitem 23.66, Mr Sam Dickins, Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli a Ms Josie Ball, Cydlynydd Gwirfoddoli a Chymunedol, Undeb y Myfyrwyr, i eitem 23.67 a Ms Sue Moss, Cofrestrydd Academaidd i eitem 23.72.

*Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor a thrwy Zoom.*

**23.57 CROESO**

Croesawodd Cadeirydd y Cyngor Dr John T. Prabhakar i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor, nodwyd bod Dr Prabhakar wedi ei benodi i gynrychioli'r staff anacademaidd, yn lle Mr Paul Wood sydd wedi ymddeol yn ddiweddar.

Yn ogystal, nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Ms Nyah Lowe a Mr Celt John, wrth i'w cyfnod fel Llywydd a Llywydd UMCB ddod i ben ddiwedd mis Mehefin. Diolchodd y Cadeirydd i Ms Lowe a Mr John am eu cyfranogiad a'u hymrwymiad i'r Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac, ar ran yr aelodau, dymunodd yn dda iddynt at y dyfodol.

Croesawyd Ms Ambreen a Mr Rowlands, Llywydd newydd yr Undeb a Llywydd UMCB, yn y drefn honno, i'r cyfarfod fel arsylwyr.

## 23.58 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgelu unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a gaiff ei ystyried yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau budd mewn perthynas â'r materion ar yr agenda.

## 23.59 CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Estynnodd Cadeirydd y Cyngor ei llongyfarchiadau, ar ran y Cyngor, i'r Is-ganghellor, ac i'r Athro Andrew Lewis, Athro Cyfansoddi a'r Athro Yueng-Djern Lenn, Athro Eigioneg Ffisegol sydd ymhlith 43 o gymrodyr newydd  Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Nodwyd bod cael eich ethol i gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth academaidd, a bod yr holl gymrodyr wedi gwneud cyfraniad eithriadol at fyd dysgu ac mae ganddynt gysylltiad amlwg â Chymru.

## 23.60 MARWOLAETHAU

A. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau diweddar y canlynol:

- Len Roberts, Cyn Brif Dechnegydd yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion
- Mohammed Nouman, Myfyriwr yn yr Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol
- Hywel George, Cyn aelod o Gyngor y Brifysgol
- Ian Hardcastle, Cyn Gyfarwyddwr Partneriaethau Proffesiynol, Ysgol Busnes Bangor.
- David Ellams, Cyn Ddarlithydd, Ysgol Busnes Bangor.
- Betsan Rowlands, 'arbenigwr trwy brofiad' achlysurol ar banel pobl Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 23.61 COFNODION

A. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Chwefror 2024.

B. Darparwyd cofnod gweithredu sy'n nodi cynnydd holl gamau gweithredu'r Cyngor sydd heb eu cwblhau. Nododd y Cyngor yr adroddiadau o gynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**Adroddiad Meincnodi Tribal (cofnod 23.43B)**

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid wrth y Cyngor, yn dilyn cwestiwn gan Mr Tomos yn y cyfarfod blaenorol, fod y data sydd wedi ei gynnwys yn adroddiad meincnodi Tribal yn cael ei ddefnyddio, ochr yn ochr â data arall, i ysgogi effeithlonrwydd a pherfformiad

ariannol. Mae'r brifysgol yn bwriadu ailadrodd yr ymarfer meincnodi yn y dyfodol, pan fydd wedi nodi grŵp meincnodi addas.

C. Nodwyd diweddariad Cynllun Gwaith y Cyngor. Yn dilyn cais gan y Cadeirydd, nodwyd nifer o fân newidiadau a fydd yn cael eu gwneud cyn i'r Cynllun Gwaith gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

## 23.62 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

A. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ynghylch ei gweithgareddau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

**Presenoldeb yn Nigwyddiadau'r Brifysgol**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cael y fraint o fod yn bresennol yn nifer o ddigwyddiadau'r brifysgol yn ddiweddar gan gynnwys rhai a gynhaliwyd i ddathlu 140 o flynyddoedd ers sefydlu'r brifysgol:

- Bu'r Cadeirydd, a Ms Wyn (fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Iaith Gymraeg) yn seremoni agoriadol Gwobrau'r Gymraeg. Nodwyd bod hwn yn ddigwyddiad ysbrydoledig i ddathlu cyflawniadau aelodau staff ym maes addysgu, ymchwilio a dysgu Cymraeg.
- Bu'r Cadeirydd yn y digwyddiad Gwirfoddoli Myfyrwyr.
- Mae'r gyfres ddarlithoedd cyn-fyfyrwyr nodedig wedi cael derbyniad da iawn, gyda nifer o ddarlithoedd yn cael eu cynnal yn ddiweddar, yn amrywio o ran cynnwys ac arddull.
- Cynhaliwyd cyngerdd gala i ddathlu'r 140 a oedd yn cynnwys Symffoni a Chorws Prifysgol Bangor ym mis Ebrill, gyda pherfformiad cyntaf gwaith newydd Dr Guto Pryderi Puw, yn ogystal â pherfformiad o 9fed Symffoni Beethoven.
- Roedd y Cadeirydd hefyd yn bresennol yng nghyfarfod Llys y Brifysgol ar 10 Ebrill.

**Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW)**

Dywedodd y Cadeirydd fod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) wedi cyfarfod yn ddiweddar. Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd gweithdy ar gyllid cynaliadwy gyda Price Waterhouse Coopers (PWC), y gwahoddwyd yr Is-gadeiryddion iddo. Gan nad yw Cymru wedi ei chynnwys yn y dadansoddiad a wnaed gan PwC ar ran Universities UK, defnyddiwyd y sesiwn i bwyso a mesur a chymharu sefyllfa prifysgolion Cymru â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio Datganiadau Ariannol 2022/23, sydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Ategwyd hyn gan Syr Paul Lambert, a oedd, fel Dirprwy Gadeirydd Cyngor Prifysgol Bangor, hefyd yn bresennol yn y sesiwn.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor ChUW ym mis Mehefin ym Mhrifysgol Bangor.

<u>Cyfraddau Cyfranogiad</u>

Adroddwyd hefyd bod ChUW wedi trafod y gyfradd cyfranogiad isel (llai na 30%) mewn addysg uwch yng Nghymru, o gymharu â 48% a adroddwyd yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft. Yn ychwanegol, roedd adroddiad diweddar y Sefydliad Polisi Addysg yn codi pryderon am y canlyniadau yng Nghymru, gyda phobl ifanc yng Nghymru sydd leiaf tebygol o fod â chymwysterau sy'n gyfwerth â Safon Uwch.

Gweithgor Trawsbleidiol y Senedd a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Bu'r Cadeirydd, fel Cadeirydd ChUW, yng nghyfarfod o Weithgor Trawsbleidiol y Senedd, lle rhoddodd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ddiweddariad ar weithrediad y comisiwn. Ni chafwyd diweddariad pellach ar y dyddiad ar gyfer gweithredu'r comisiwn, sef 1 Awst 2024 ar hyn o bryd.

Prifysgolion Cymru

Cyfarfu'r Cadeirydd, fel Cadeirydd ChuW, â Chadeirydd newydd a Chyfarwyddwr Prifysgolion Cymru, a mynegodd ei dymuniad i barhau i ddatblygu'r cydweithio rhwng Prifysgolion Cymru a ChUW. Nodwyd y bydd cyfleoedd i gydweithio yn cael eu trafod ymhellach.

**Nodwyd** adroddiad y Cadeirydd, sydd wedi ei gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod hwn.

**23.63 DIWEDDARIAD YR IS-GANGHELLOR**

A. Rhoddodd yr Is-ganghellor ddiweddariadau i'r Cyngor am nifer o feysydd allweddol.

**Gwobr Ragoriaeth Arsylwi'r Ddaear Asiantaeth Ofod Ewrop 2024**

Estynnodd yr Is-ganghellor ei longyfarchiadau i Dr Iestyn Woolway, Cymrawd Ymchwil Annibynnol NERC yn Ysgol Gwyddorau'r Eigion, sydd wedi ennill Gwobr Ragoriaeth Arsylwi'r Ddaear Asiantaeth Ofod Ewrop 2024. Nodwyd bod y wobr bwysig hon yn dathlu ymdrechion rhagorol gwyddonwyr sydd wedi datblygu cymhwysiad arloesol data arsylwi'r ddaear.

**Gwobr Ragoriaeth AD (UHR) y Prifysgolion**

Llongyfarchwyd y Prif Swyddog Pobl, a'r tîm Adnoddau Dynol, ar gyrraedd rhestr fer Gwobr Ragoriaeth UHR 2024 yng ngwobrau blynyddol UHR. Mae'r cais, o dan y categori llesiant, yn canolbwyntio ar ddatblygu dull y brifysgol o gefnogi staff yn ystod y menopos.

**Cyfres Darlithoedd Cyn-fyfyrwyr Nodedig**

Cynhaliwyd nifer o ddarlithoedd gan gyn-fyfyrwyr nodedig yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cynnwys Caradoc Jones, Dr Tiny Barsby a George Buckley. Yn ogystal, traddodwyd darlith agoriadol gan yr Athro Katrien Van Landeghem. Rhoddodd un o ddeiliaid gradd

er anrhydedd y brifysgol, Steve Backshall, ddarlith hefyd a ddenodd gynulleidfa o dros 600 o bobl.

Diolchwyd i bawb a oedd wedi cytuno darparu darlithoedd ac ymgysylltu â chymuned y brifysgol.

**Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Dywedodd yr Is-ganghellor wrth y Cyngor fod y brifysgol (fel corff corfforaethol) wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o'r bwrdd sy'n goruchwylio'r rhaglen porthladd rhydd. Byddai gan y brifysgol ac M-Sparc un cyfarwyddwr yr un. Adroddwyd bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi cytuno y bydd yr Athro Andrew Edwards yn gyfarwyddwr ar ran y brifysgol, a Mr Pryderi ap Rhisiart yn gyfarwyddwr ar ran M-Sparc.

## 23. 64 MATERION CYFYNGEDIG

## 23.65 MATERION CYFYNGEDIG

*Ymunodd Mrs Emma Marshall, Pennaeth Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr â'r cyfarfod.*

## 23.66 STRATEGAETH DATBLYGU A CHYSYLLTIADAU CYN-FYFYRWYR

A. Croesawodd y Prif Swyddog Marchnata y cyfle i gyflwyno'r Strategaeth Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr a gymeradwywyd yn ddiweddar i'r Cyngor. Nodwyd bod y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr yn parhau i wneud cynnydd da yn y maes hwn, fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror. Mae’r Strategaeth Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr yn nodi’r dull lefel uchel o ddatblygu a gweithredu rhaglen godi arian ac ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr i gefnogi trawsnewid, arloesi, addysgu ac ymchwil. Mae'r strategaeth yn rhoi trosolwg ar y dull gweithredu arfaethedig yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gynyddol heriol.

Rhoddodd Mrs Marshall drosolwg manwl ar y strategaeth, a nododd fod tri amcan y mae’r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr yn canolbwyntio arnynt:

- Cynyddu rhoddion dyngarol i'r brifysgol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o weithgarwch y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr yn fewnol ac ymgysylltu ag arweinwyr a chydweithwyr academaidd mewn diwylliant sy’n blaenoriaethu dyngarwch llwyddiannus.
- Datblygu cymuned o 'gyn-fyfyrwyr am oes' ymgysylltiedig.

Cafwyd trafodaeth, a gwnaed amryw o sylwadau:

- A yw'r swyddfa wedi ystyried defnyddio cod QR yn ystod y cyfnod graddio, sy'n caniatáu i raddedigion ddiweddaru eu manylion, a gwneud cysylltiadau â'r Swyddfa Datblygu a Chyn-fyfyrwyr.
- Dylai'r swyddfa ystyried defnyddio TG digidol i godi arian, megis cyllido torfol.

- Mae sawl cyfle i wneud yn fawr o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â llwyddiannau ein cyn-fyfyrwyr, a allai ennyn diddordeb pellach.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r Prif Swyddog Marchnata, a Mrs Marshall am y diweddariad defnyddiol a'r cyfle i wneud sylwadau ar y strategaeth.

*Gadawodd Mrs Marshall y cyfarfod.*

*Ymunodd Mr Sam Dickins a Ms Josie Ball, Undeb y Myfyrwyr, â'r cyfarfod.*

**23.67 ADRODDIAD STRATEGOL UNDEB Y MYFYRWYR**

A. Cyflwynodd Ms Lowe a Mr John adroddiad ynghylch y gweithgareddau a fu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Tynnwyd sylw at y canlynol yn benodol:

- Enillodd UMCB y cystadlaethau llwyfan yn yr Eisteddfod Ryng-golegol, a diolchwyd i'r holl fyfyrwyr am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiannau'r penwythnos.
- Yn ystod cynhadledd flynyddol Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, cyflwynodd UMCB Bolisi Newid Enw a fydd yn arwain at y sefydliad yn cael ei adnabod fel UCM Cymru o hyn ymlaen.
- Mae'r timau athletau yn parhau i wneud yn dda, a Bangor wedi ennill tlws Varsity am yr 8$^{fed}$ flwyddyn yn olynol.
- Cynhelir noson wobrwyo UMCB yn fuan i ddathlu llwyddiannau aelodau UMCB.
- Mae'r Lolfa, ystafell fyw i fyfyrwyr, wedi agor yn Pontio yn ddiweddar.
- Cynhaliwyd Gwobrau Blynyddol y Cymdeithasau a Gwirfoddoli yn ddiweddar.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd, nodwyd llwyddiannau amlwg y ddwy flynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

- Prydau am £2, sydd wedi bod yn hynod boblogaidd.
- Gweithio ar y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr
- Parhau â'r ymgyrch iechyd rhywiol.
- Digwyddiadau dathlu dydd Nadolig a'r Pasg, ar y cyd â'r Gadeirlan a'r tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol.

B. **Cyfleoedd Gwirfoddoli i Fyfyrwyr**

Cyflwynodd Ms Lowe ddiweddariad ar Wirfoddoli Myfyrwyr. Nodwyd bod myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi bod yn gwirfoddoli ers 72 mlynedd, gan ddechrau gyda'r te parti cyntaf a gynhaliwyd ym 1952 sy'n parhau hyd heddiw.

Nodwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24:

- Cynigiwyd 36 o brojectau gwirfoddoli, gyda 70+ o arweinwyr project yn trefnu digwyddiadau, sy'n cynnwys 13 o bartneriaethau gyda sefydliadau allanol.

- Cofrestrodd 541 o wirfoddolwyr, a chafwyd 553 o geisiadau unigol ar gyfer projectau. Enillodd 48 o fyfyrwyr wobrau oriau gwirfoddoli Efydd, Arian ac Aur newydd.
- Mae'r project prydau poeth wedi darparu tua 760 o brydau poeth am ddim i bobl yn y gymuned leol ers mis Medi 2023
- Mae 7-8 o blant yn dod bob wythnos i sesiynau project plant ar ôl ysgol Sblat.
- Dathlwyd y myfyrwyr sy'n gwirfoddoli fel rhan o Lys y brifysgol, pan gyflwynwyd Gwobrau'r Uchel Siryf am Wirfoddoli.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Lowe, Mr Dickins a Ms Ball am eu cyflwyniad ysbrydoledig.

C. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Ms Lowe a Mr John am eu hymwneud a'u hymrwymiad i'r Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolchodd Ms Lowe a Mr John i'r Cyngor, a'r brifysgol, am eu hymrwymiad parhaus i fyfyrwyr a phrofiad myfyrwyr. Ategodd yr Is-ganghellor sylwadau'r Cadeirydd, gan nodi bod y brifysgol yn falch o'i chymuned myfyrwyr, ac yn gwerthfawrogi parodrwydd Undeb y Myfyrwyr i weithio gyda'r Bwrdd Gweithredol er budd yr holl fyfyrwyr.

*Gadawodd Mr Dickins a Ms Ball y cyfarfod.*

*Ymunodd yr Athro Jean White* â'r cyfarfod.

**23.68 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

A. **Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2024.

B. Tynnodd Syr Paul Lambert sylw'r Cyngor at Gofrestr Risg Gorfforaethol y brifysgol a oedd wedi ei chynnwys er gwybodaeth, a'r Datganiad Archwaeth Risg a oedd wedi ei gynnwys i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y risg sy'n ymwneud â chyllid allanol, a chyfundrefnau rheoleiddiol a statudol/cyfreithiol wedi ei diwygio i adlewyrchu newidiadau diweddar i bolisi o ran rheoliadau fisa, cyfundrefnau ffioedd a'r effaith ariannol chwyddiannol.

Nodwyd, mewn perthynas â'r risg ymgysylltu byd-eang, y darperir diweddariad yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

Cadarnhawyd bod y risg yn ymwneud ag adeiladau, a chynnal a chadw adeiladau yn cael ei hadolygu'n rheolaidd wrth i'r rhaglen gyfalaf gael ei hadolygu.

Nodwyd bod adolygiad cynhwysfawr o reoli risg ledled y brifysgol wedi ei gynnal yn 2023, a bod canlyniadau'r adolygiad hwnnw'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Un o'r canlyniadau hynny yw ymgymryd â dull newydd o ddiffinio parodrwydd y sefydliad i gymryd risg, gan ymgorffori lefelau goddefadwy o ran cymryd risg. Cytunodd y Pwyllgor Risg Strategol ar y dull gweithredu, a thrafodwyd hynny wedyn ar sawl

achlysur yn y Bwrdd Gweithredol a chytunodd y Pwyllgor Archwilio a Risg arno ym mis Mawrth.

Yn dilyn trafodaeth, **cymeradwyodd** y Cyngor y Datganiad Archwaeth Risg.

**23.69 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar ar gyfarfod y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd, a gynhaliwyd ar 8 Mai 2024, a nododd y cyflwynir y cofnodion yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Nodwyd bod Ysgrifennydd y Brifysgol wedi amlinellu agenda cyfarfod y Cyngor i aelodau undebau llafur y campws, a bod yr Is-ganghellor wedi rhoi diweddariad ar yr heriau ariannol. Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad am barodrwydd cyson holl gynrychiolwyr undebau llafur campws i chwarae rhan weithredol yn y fforwm.

**23.70 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

**Nodwyd** adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024. **Cymeradwyodd** y Cyngor y Cynllun Dirprwyo diwygiedig a’r Pwerau Gwneud Penderfyniadau

**23.71 MATERION CYFYNGEDIG**

**23.72 ADOLYGIAD GWELLA ANSAWDD: DIWEDDARIAD**

A. Darparodd yr Athro Callow, ynghyd â Ms Moss a Ms Lowe, friff ar Adolygiad Gwella Ansawdd y brifysgol, sydd i'w gynnal ym mis Rhagfyr 2024. Nodwyd bod yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i sylfaen dystiolaeth gael ei chyflwyno o leiaf 12 wythnos cyn ymweliad y tîm adolygu ym mis Rhagfyr. Bydd y sylfaen dystiolaeth yn cynnwys hunan-ddadansoddiad, a gyflwynir ar y cyd gan y brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, ynghyd â hyd at 120 o eitemau o dystiolaeth. Nodwyd mai'r brifysgol fydd y gyntaf i ddefnyddio methodoleg ddiweddaraf yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Ar ddiwedd yr adolygiad, bydd y brifysgol yn cael dyfarniad ar ei phrosesau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd, ynghyd ag unrhyw ganmoliaeth, a bydd hon yn ddogfen gyhoeddus.

O safbwynt rheoleiddio ac enw da, nodwyd pa mor bwysig ydyw bod y brifysgol yn cael beirniadaeth sicrhau ansawdd a datganiad gwella ansawdd cadarnhaol yn Adolygiad Gwella Ansawdd 2024. Yn ogystal, mewn perthynas ag enw da, gan na chymerodd Cymru ran yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) 2023, mae’r broses o gynnal Adolygiad Gwella Ansawdd yng Nghymru yn bwysicach fyth.

Cafodd y Cyngor wybod bod cynllun project ar waith i roi cyflwyniad o ansawdd uchel, gyda nifer o ffrydiau gwaith ar y gweill i gwblhau'r hunan-ddadansoddiad, cynhyrchu astudiaethau achos a chraffu ar dystiolaeth bosib ar gyfer y cyflwyniad. Cadarnhaodd Ms Lowe bod Undeb y Myfyrwyr yn rhan greiddiol o ddatblygu’r hunan-ddadansoddiad a'r sylfaen dystiolaeth a’i bod wedi dewis cyflwyno ar y cyd i'r Adolygiad Gwella Ansawdd yn hytrach nag ar wahân.

B. Yn dilyn cwestiwn gan yr Athro White, cadarnhaodd yr Athro Callow fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â phrofiad myfyrwyr yn Wrecsam, yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau clinigol. Fodd bynnag, mae data o'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn dangos bod myfyrwyr y brifysgol yn fodlon ar y lleoliadau sy'n cael eu cynnal. Mae cyfarwyddwr ennyn diddordeb myfyrwyr wedi ei benodi yn yr ysgol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r profiad presennol. Yn ogystal, ac yn dilyn cwestiwn yr Athro White, nodwyd y bydd unrhyw waith archwilio mewnol a wneir yn dyblygu'r gwaith y mae'r Athro Callow yn ei arwain yn y maes hwn.

Diolchodd Cadeirydd y Cygor i'r Athro Callow, Ms Moss, a Ms Lowe am eu cyflwyniad, sydd wedi rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y paratoadau at yr Adolygiad Sicrhau Ansawdd yn cael eu rheoli'n briodol.

## 23.73 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio'r dogfennau a restrir yn Agendwm 11.

## 23.74 SYLWADAU I GLOI

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gyfarfod defnyddiol a chynhyrchiol, ac am fwrw ymlaen gyda nifer o faterion allweddol. Nododd sawl aelod y gwelliant yn ansawdd y papurau a gyflwynir. Diolchwyd i'r tîm cyfieithu am eu cymorth.